DIWRNOD YM MYWYD *NIA WYN SMITH*

Does dim digon o oriau mewn diwrnod i Nia Wyn Smith, Trefnydd Ffermwyr Ifainc Meirionnydd, ond er gwaethaf hynny nid oes dim yn well ganddi na chael ymlacio ar nos Wener olaf y mis gyda Chlwb Gwawr y Sgwâr yn Nolgellau, sydd â chalendr bywiog iawn eleni. **LOWRI REES**, Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y gogledd fu'n dilyn hynt diwrnod yn ei bywyd . . .

Mae Nia'n byw yn Parliament House, Dolgellau, ac mae ei swyddfa ar garreg y drws, ond er hynny mae ganddi ddiwrnod o waith cyn cyrraedd ei desg yn y bore. Mae'n fam brysur i dri o blant Euros Cynan (12), Elis Huw (9) a Mari Wyn (5), ac mae dau ohonynt erbyn hyn yn mynychu'r ysgol yn Llanfachreth, ac un yn mynd i Ysgol y Gader yn Nolgellau.

'Dwi'n codi tua 7.30, dwi wedi mynd i ryw fath o rwtîn erbyn hyn. Mae amser brecwast yn y tŷ 'cw yn eithaf tawel

Rhai o aelodau Clwb Gwawr y Sgwâr, Dolgellau, yng nghanol eu miri

o ystyried bod 'na dri o blant. Mae pawb drosto'i hun a Duw dros bawb! Mae pawb yn bachu ei rawnfwyd ac yn bwyta'n dawel. Er hynny, dwi wedi gweld ambell ddiwrnod pan mae'r plant yn bwyta cwstard neu sŵp i frecwast hefyd.'

'Dwi, Dyl a'r plant allan o'r tŷ erbyn chwarter i naw, a dwi'n cychwyn yn syth yn y car am Ysgol Llanfachreth sydd oddeutu pedair milltir o'r dref, ac yna yn ei hel hi'n ôl i geisio cyrraedd y swyddfa sydd wedi'i lleoli yn adeiladau Penarlâg erbyn naw, gall hyn fod yn chwyslyd iawn ar adegau.'

'Mae dydd Mawrth yn ddiwrnod grêt yn y swyddfa gan fod Carys, ysgrifenyddes ffermwyr ifainc Meirionnydd, sy'n dod i mewn un diwrnod yr wythnos, gyda ni, ac mae hi'n gymorth mawr gyda'r gwaith. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at ddydd Mawrth.

'Bydd y diwrnod yn dechrau drwy fynd drwy'r holl e-byst sydd wedi cyrraedd a chwarae negeseuon sydd ar y ffôn yn eu holau. Mwy na thebyg bydd negeseuon gan y brif swyddfa sydd wedi ei lleoli yn Llanelwedd a bydd angen ymateb iddyn nhw. Bydd y bore'n llawn galwadau ffôn, yn ceisio trefnu digwyddiadau ac yn y blaen.

'Mae'n drefn ddyddiol erbyn hyn i gyfarfod Dylan am ginio. Mae e'n gweithio yn swyddfa Undeb Amaethwyr Cymru yn y dref, ac mae'n braf cael sgwrs sydyn dros ginio, cyn dychwelyd i brysurdeb y swyddfa.'

'Mae'r diwrnod yn prysur basio yn gwneud galwadau ffôn, trefnu digwyddiadau ac yn y blaen. Mi fyddaf yn gadael y swyddfa am 3.20 er mwyn mynd i gasglu plant o'r ysgol ac yna mi

Dylan a Nia yn ymlacio

fydd hi fel ffair lyfrau, pawb yn bachu te, rhedeg â'r plant yn ôl ac ymlaen i ymarferion pêl-droed a rygbi, a thrïo cael amser i baratoi swper rywle yn y canol hefyd.'

'Mi rydan ni'n eistedd lawr fel teulu i fwyta swper gyda'n gilydd tua chwech bob nos, mae'n gyfle i bawb gael deud ei ddeud. Yna mae'r rhuthr yn cychwyn eto, clirio swper a chael popeth yn barod cyn cychwyn allan i ymweld â chlybiau gwahanol ym Meirionnydd, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o wahanol ddigwyddiadau ac ati neu er mwyn cynnal noson.'

'Mae min nosau'n hedfan ac felly mae'r gair *rhuthro* yn arwyddocaol. Dwi'n cyrraedd adref tua hanner awr wedi naw, ac yna mi fydd hi'n gyfle imi roi fy nhraed i fyny am 'chydig dros baned a sgwrs gyda Dyl, cyn ei throi hi am y gwely tua hanner. Dwi byth yn mynd i'r gwely yn gynnar iawn, gan ei bod hi'n anodd cysgu ar ôl diwrnod mor brysur. Mae'n rhaid imi ymlacio cyn mynd i'r gwely.

Unwaith y mis ar nos Wener dwi'n mynd allan gyda merched Clwb Gwawr y Sgwâr, mae 'na griw da ohonan ni a 'dyn ni'n cael llawer iawn o hwyl.'